



Hysbyseb Rali Ffermwyr Ifanc

tud 3	tud 6	tud 9	tud 11
Beirdd Tal-y-bont	Busnesa yn Y Lolfa	I Ben yr Wyddfa	Gwobrwyo Ffotograff

Hwyl yn y Bont!

Unwaith eto bu ffermwyr ifanc Tal-y-bont yn disgleirio yn rali flynyddol y mudiad yng Ngheredigion, a gynhaliwyd eleni ar fferm Dolrychain, Pontrhydfendigaid ar ddydd Sadwrn, 3ydd o Fehefin. Ond Clwb Felinfach enillodd y tro yma er gwaetha ymdrechion glew'r aelodau yn perfformio, yn barnu stoc, yn creu tablo, ac yn cyflawni pob math o gampau eraill.

Cafodd ffermwr ifanc lleol, Steffan Nutting, anrhydedd arbennig o fod y dirprwy gwrywaidd cyntaf y sir – fel arfer pedair dirprwy sydd gan Frenhines y Rali. Dymuna'r clwb ddiolch i'r noddwyr am eu cefnogaeth: Rhydian Evans, y prif noddwr, Ffariar ac hefyd i'r Lolfa a chwmni teiars A&D.



Gweithio'n galed ar osod y tablo i fyny



Gwenno Evans, Tanllan; Bedwyr Siencyn, Tanyrallt; Dewi Jenkins, Tynygraig a Rhydian Evans, Neuadd Fawr



Steffan Nutting



Beca Williams yn swyno'r dorf

Dyma'r canlyniadau:

Barnu gwartheg limousin unigolyn uchaf 16 neu iau:

Bedwyr Siencyn, Tanyrallt

Barnu Defaid Suffolk:

- **Unigolyn uchaf ac unigolyn uchaf 16 neu iau:** Bedwyr
 - **Unigolyn uchaf 21 oed neu iau:** 1^{af} Gwenno Evans, Tanllan
- Tîm barnu defaid Suffolk:** 1^{af} - Rhydian Evans, Neuadd Fawr, Gwenno a Bedwyr

Unigolyn uchaf 26 oed neu iau: 1^{af} Dewi Jenkins, Tynygraig

Barnu stoc unigolyn gorau 16 neu iau: Bedwyr

Unigolyn gorau am roi rhesymau yn Gymraeg: Bedwyr

Canu: 1af - Beca a Cadi Williams, Clyn Cennin, Cari Davies, Llanbadarn ac Elain Tanat, Glanfred

Cneifio defaid unigolyn uchaf 26 oed neu iau: 1^{af} Dewi Jenkins, Tynygraig; 2^{il} John James, Penbanc

Cneifio defaid unigolyn uchaf 21 oed neu iau: 2^{il} Gwion Evans, Tanllan

Tîm Cneifio Defaid: 1^{af} Dewi a Gwion

Tîm Trin Gwlân: 2^{il} Steffan Nutting

Tablo: 3^{ydd}

Tynnu'r gelyn: 2^{il}

Llongyfarchiadau hefyd i Ynyr Siencyn, Wiliam Jones, Anwen Jenkins, Sara Jenkins, Alaw Aur, Haf Evans, Steffan Nutting, Teleri Morgan, a Dafydd Steddfa am gystadlu yn y Rali.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins (01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com
Tynnu lluniau: Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL
Tal-y-bont: Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592
Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont 832438
Maes-y-deri: Karren Roberts 07800 806578
Parsel Henllys: Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont 832498
Bont-goch: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Tre Taliesin: Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin 832230
Tre'r-ddôl: Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl (01654) 781260
Michelle James, 4 Maes Cletwr, Tre'r-ddôl 832028
Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais (01654) 781324
Eglwysfach/Ffwrnais: Ceri Morgan
Rhwydweithiau cymdeithasol:

CYMDEITHAS PAPUR PAWB
Cadeirydd: Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont 832203
Is-gadeirydd: Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont 832697
Ysgrifennydd: Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont 832344
Trysorydd: Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093
Tanysgriadau: Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Hysbysebion: Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont 832076
Plygu'r Papur: Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins
Dosbarthwyr: Lynn Ebenezer; Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...

www.papurpawb.cymru

hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

Grŵp Celf Taliesin

Arddangosfa Celf a Chrefft
Yn y Llanfach, Taliesin
Dydd Sadwrn 1 Gorffennaf
11am-4pm
Mynediad am ddim

Cymdeithas Papur Pawb

Cyfarfod Blynnyddol
Neuadd Goffa, Tal-y-bont
nos Fercher 28 Mehefin
am 7.30
Croeso i bawb

Sesiwn Nos Wener COWBOIS RHOS BOTWNNOG



yn y Llew Du, Tal-y-bont
am 8 nos Wener, 16 Mehefin
Tocynnau £8 ar y noson neu o'r Lolfa
Noddir gan Noson Allan

Bwyd da... Cwmni da!

BLACK LION HOTEL



01970 832 555
croeso@yblac.co.uk

Dyddiadur

MEHEFIN

- 11 **Bethel** 2 Gweinidog
Nasareth 5 Rhidian
Griffiths (C)
Rehoboth 10
Taith 3k Llysiau Llesol
(Rhaid archebu lle) 11-12.30
Cletwr, Tre'r-ddôl
- 11 **Capel Bethesda** Tynant 3.30
Richard Lewis
- 14 **Taith 3k Troellwr Fin Nos**
(Rhaid archebu lle)
8.30-9.30 Cletwr, Tre'r-ddôl
- 16 **Sesiwn Nos Wener**
Cowbois Rhos Botwnnog
8 y.h. Y Llew Du
- 17 **Cyfarfod misol i ddysgwyr**
11-12 Cletwr, Tre'r-ddôl
- 18 **Bethel** 10 Gwasanaeth Teulu
Nasareth 2 Eifion Roberts (R)
Rehoboth 10 Terry Edwards
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30 Hwyrdd Weddi
- 19 **Merched y Wawr**
Tal-y-bont a'r Cylch
- 23 **Amser Stori** 2.30-3.15yp
Cletwr, Tre'r-ddôl
- 24 **Hwyl gyda Chrefftau**
(Gwell archebu lle) 3-5
Cletwr, Tre'r-ddôl
- 25 **Bethel** 10 Gweinidog (C)
Nasareth 10 Uno ym Methel
Rehoboth 2 Eifion Roberts (R)
- 27 **Cymdeithas Treftadaeth**
Llangynfelyn 7.30 'Bwyd y
Carchar' (Richard Ireland)
- 30 **Caws, Gwin a Chân**
gyda Chôr y Gen 7 y.h.
Eglwys Sant Pedr, Elerch

GORFFENNAF

- 2 **Bethel** 10 Uno yn Nasareth
Nasareth 10 Trefniant Lleol
Rehoboth 5 Elwyn Pryse
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30 Cymun Bendigaidd
- 4 **Sefydliad y Merched**
Taliesin Beiciau Gwaed



DARLITH FLYNYDDOL MORLAN-
PANTYFEDWEN 2017

'Y Williams iawn?':
Golwg newydd ar Williams
Pantycelyn gan Saunders Lewis

7.30, nos Lun, 24 Ebrill

Yr Athro D. Densil Morgan fydd yn
traddodi'r ddarlith eleni ar destun
amserol gan fod 2017 yn nodi
trichanmlwyddiant geni'r emynydd
nodedig hwn. Mynediad am ddim.

Manylion llawn ar wefan Morlan:
morlan.cymru

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com

- 8 **Sefydliad y Merched Taliesin**
Taith i Port Sunlight
- 9 **Bethel** 2 Gweinidog
Nasareth 2 Uno ym Methel
Rehoboth 5 Rhidian Griffiths
- 10 **Ysgol Tal-y-bont** 7.30
Cyfarfod Blynnyddol Cylch
Meithrin Tŷ Sbri,
- 16 **Bethel** 10 Gwasanaeth Teulu
Nasareth 10 Terry Edwards
Rehoboth 10 Tegwyn Jones
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30 Hwyrdd Weddi
- 23 **Bethel** 10 Gweinidog (C)
Nasareth 10 Uno ym Methel
Rehoboth 5 Eifion Roberts (R)
- 30 **Bethel** 10 Oedfa Undebol
yn Noddfa

AWST

- 6 **Bethel** Uno yn Rehoboth
Rehoboth 10 John Hughes
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30 Cymun Bendigaidd
- 13 **Bethel** 2 Gweinidog
Rehoboth 2 Uno ym Methel
- 20 **Bethel** 10 Uno yn Rehoboth
Rehoboth 10 Beti Griffiths
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30 Hwyrdd Weddi
- 26 **SIOE TAL-Y-BONT**
- 27 **Bethel** 10 Gweinidog (C)
Rehoboth 10 Uno ym Methel

MEDI

- 3 **Bethel** 10 Uno yn Nasareth
Nasareth 10 Richard Lewis
Rehoboth 10 Ifan Mason
Davies
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30 Cymun Bendigaidd
- 5 **Sefydliad y Merched**
Taliesin Hosbis yn y Cartref
(Dr Axford)

Golygyddion y rhifyn
hwn oedd Enid a Robat,
gyda Tanwen yn dylunio.
Golygyddion y rhifyn
nesaf, sef mis Medi, fydd
Rebecca ac Arthur
(rebswilliams@yahoo.com).
Y dyddiad cau ar gyfer
derbyn newyddion fydd
dydd Gwener 1 Medi, a bydd
y papur ar werth ar 8 Medi.

Os am gynnwys manylion
am weithgareddau eich
mudiad neu'ch sefydliad
yn nyddiadur y mis,
dylech anfon y manylion
llawn at Carys Briddon,
carysbriddon@btinternet.com
01970 832478 o leiaf
ddeng niwrnod cyn y
rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Dafydd Mason, Craig Fach, Bont-goch a Robyn Mason, Ffwrnais, ar golli eu mam-gu, Mrs Eirlys Myfanwy Owen, Bow Street, ar 7 Mai.

Parc Chwarae Bont-goch

Da gennym sylwi fod y parc yn datblygu'n dda, a'r tyweirch wedi eu gosod yn ddiweddar. Anelir at osod yr offer chwarae yn gynnar ym mis Gorffennaf.

Eglwys St. Pedr, Elerch

Mae'r Eglwys ar agor yn ddyddiol o dan gynllun Llefydd Llonydd, ac estynnir gwahoddiad caredig i ymwelwyr daro heibio. Edrychwn ymlaen at ein noson flynyddol o Gaws, Gwin a Chân ar 30 Mehefin, sef nos Wener olaf y mis. Darperir adloniant gan Gôr y Gen ac artistiaid lleol. Mae croeso cynnes i bawb.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Gwyn a Falyri Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont ar ddod yn dadcu a nain i'w hŵyr cyntaf. Ganwyd bachgen bach i Luned a Mathew, ei enw Taliesin Dafydd.

Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Mrs Hammonds, Bontgoch, sydd yn Ysbyty Bronglais wedi syrthio.

Diolch o galon

Dymuna Ann Humphreys, Llysteg, Taliesin, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd ar ei phenblwydd arbennig yn ddiweddar ac am yr holl gardiau, cyfarchion ac anrhegion.

Croeso


Croeso cynnes i Rod a Val Mayhew sydd newydd symud i fyw i Suncot, Taliesin.

Ffrindiau Cartref Tregerddan

Cynhelir y
**BARBECIŴ
BLYNYDDOL**

Nos Wener,
16 Mehefin,
am 6:30
Mynediad
£5 i oedolion
a £2 i blant

Noddir gan Noson Allan



O'r chwith i'r dde Gwyn Jenkins, Phil y Fet, Anwen Pierce, Phil Davies a'r Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan

Hwyl Nos Wener

Wrth sylwi bod y noson am ddim, ac wrth feddwl am y rhaglen Talwrn y Beirdd – sydd yn gallu bod, wel, 'bach yn sidet weithiau, tybed? – nid pawb oedd yn disgwyl yr hwyl, yr hiwmor, y minigrwydd, na chwaith y cochni gawson ni nos Wener, 19 o Fai, yn y Llew Gwyn.

Cafwyd dwyawr o chwerthin (ac o ddwyyster ac o golli ambell ddeigryn sentimental) yn un o'r nosweithiau mwyaf hwyliog erioed dan nawdd Sesiwn Nos Wener. Roedd Phil (Davies) cystal ag unrhyw 'standyp' wrth gadeirio ac wrth gyflwyno ei waith ei hun a'r beirdd eraill, oedd yn cynnwys y Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan, Anwen Pierce, Gwyn Jenkins, a Phil y Fet. Enillwyd cystadleuaeth y limeric gan Siân Saunders o Daliesin.

Diddorol sylwi bod y beirdd, sy'n aelodau o dîm Talwrn Tal-y-bont, i gyd yn dod o'r pentre neu'r ardal. Mae'r dalent sydd gyda ni yn Nhalybont yn rhyfeddol ac mae'n wych gweld y traddodiad hir lleol o farddoni yn cael ei gynnal mor gadarn. Yn amlwg, does dim angen mynd yn bell, na thalu'n uchel i gael adloniant da -- ond rwy'n siwr y bydd y beirdd yn teimlo eu bod nhw'n haeddu cael eu talu tro nesa!

RG

Cymorth Cristnogol

Cyfanswm casgliad Cymorth Cristnogol ym mhlwyf Llangynfelyn eleni oedd £135.50. Roedd y trefniadau yng ngofal Carys Briddon ac Owen Jenkins. Diolch i bawb am eu haelioni.

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Alun Morgan ("Mogs"), sydd newydd ddod adre o'r ysbyty.

Llwyddiant eisteddfodol

Roedd Elinor a Heledd Davies, Tal-y-bont, yn aelodau o gwmni Dolly Mixtures, a ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth 'Drama Theatrîg' yn Eisteddfod yr Urdd. Siôn Pennant oedd yn gyfrifol am eu hyfforddi. Roedd Elinor hefyd yn aelod o grŵp dawnio Penweddig, a ddaeth yn fuddugol yn yr Eisteddfod. Llongyfarchiadau i'r ddwy.

Brysiwch wella bobol Taliesin!

Dymuniadau gorau i Vera Lewis, 6, Pencae a Brenda Jeeves sydd yn Ysbyty Tregaron ar hyn o bryd ac i Olwen Rowlands, 3, Wesley Terrace sy'n dal i fod yn Ysbyty Bronglais. Hefyd i Mai Leeding, Glannant, sy'n ymadfer yn Amwythig. Brysiwch wella ffrindiau annwyl – rydyn ni'n gweld eich eisiau!

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Ceri Morgan a Dominic Southgate, Adam Street, Tal-y-bont ar enedigaeth merch fach, Jessie Ann, chwaer i Leila.

Llongyfarchiadau hefyd i Rhian a Clive Morgan, sydd hefyd wedi cael merch fach, Lisa Haf, chwaer fach i Lloyd.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mal a Margaret, Penlônlas, ar ddod yn famgu a thadcu.

Pen-blwydd

Llongyfarchiadau i Paul Kelly, Tal-y-bont, ar ddathlu penblwydd arbennig.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Nia Evans a Mark Richards, Rhiwlan, Tal-y-bont, ar eu dyweddiad.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Gruffudd Lewis, y Tabernacl, Tal-y-bont, ac Elin ar enedigaeth eu mab, Guto.

Bistro
Gannets



Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

CYFARFOD BLYNYDDOL

Cylch Meithrin Tal-y-bont,
Tŷ Sbri
10 Gorffennaf am 7.30
yn Ysgol Tal-y-bont
Croeso cynnes i bawb

Ysgol Tal-y-bont

MIS MAI CYFFROUS

Roedd mis Mai 2017 yn llawn digwyddiadau gwahanol a chyffrous ac rydym yn gobeithio y bydd y profiadau hyn yn mynd i aros gyda'r plant am flynyddoedd mawr i ddod.



Matti Hemmings yn sgwrsio â'r Clwb Seiclo

Sustrans Cymru

Ers misoedd bellach, rydym wedi bod yn cydweithio gyda Sustrans Cymru ar agweddau o gadw'n iach a diogel. Yn ystod mis Mawrth, roedd yr ysgol wedi bod yn rhan o'r Big Pedal, cystadleuaeth ar draws gwledydd Prydain i annog defnyddio beic neu sgwter i ddod i'r ysgol. Oherwydd i'r ysgol ennill un o'r cystadlaethau yng Nghymru, cafwyd gwobr arbennig, sef arddangosfa seiclo BMX gan y byd enwog Matti Hemmings. Mae Matti'n bencampwr yn ei faes ac mae'n dal nifer o recordiau byd, ac roedd y plant, a'r staff, wrth eu boddau wrth ryfeddu at ei ddoniau a'i driciau. Diolch yn fawr i Sioned a Sustrans am drefnu'r digwyddiad ac i'r Cynghorydd Ellen ap Gwynn am gyflwyno'r sioe i ni – profiad bythgofiadwy!



Os am weld ychydig o gampau BMX Matti Hemmings ar iard yr ysgol, defnyddiwch eich ap i sganio'r codau QR



Mrs Griffiths yn dangos ei sgiliau BMX

Gŵyl Seiclo Aberystwyth

Mae'n draddodiad ers blynnyddoedd bellach i griw o blant gynrychioli'r ysgol yn y rasys beics blynnyddol o gwmpas tref Aberystwyth. Llongyfarchiadau mawr i Ava, Evan a Finley a wnaeth seiclo mor arbennig eleni eto; Cian a Steffan a gymerodd rhan yn y rasys beicio mynydd, a bu Hedydd a Finley hefyd yn cymryd rhan yn y seiclo traws gwlad.



Ava ac Evan ar eu beics



Clocwedd o'r top chwith: Steffan, Hedydd, Finley a Cian

Gŵyl Aml Sgiliau

Rydym yn ffodus o gael cyfleoedd cyson i ymuno gydag ysgolion eraill o ardal Aberystwyth i ymarfer amryw o sgiliau er mwyn cadw'n heini a chadw'n iach. Y tro yma, blynnyddoedd 3 a 4 gafodd fynd i Brifysgol Aberystwyth i weithio'n galed a mwynhau!

Wythnos cerdded i'r ysgol

Mae'r ysgol wedi bod yn cefnogi ac yn hybu cerdded i'r ysgol yn ystod y mis hefyd. Diolch i bawb wnaeth ein cefnogi.

Gwersi Awyr Agored

Yn ystod mis Mai, clustnodwyd diwrnod cenedlaethol ar gyfer cynnal gweithgareddau y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Ond dydy hynny'n ddim byd newydd yn Ysgol Tal-y-bont gan ein bod yn chwilio am bob cyfle i gyfoethogi profiadau'r plant y tu hwnt i adeilad yr ysgol. Byddwn yn defnyddio'r cae, yr ardd a'r iard yn aml ar gyfer gwersi, ac rydym yn ffodus fod Allt y Crib mor agos i ni hefyd. Credwn fod trefnu gweithgareddau fel hyn yn ychwanegu cymaint at ein darpariaeth.



Chwilio am gymesuredd ym myd natur

Crwydro'r goedwig yn ystod y Gwersi Awyr Agored

Ymweliad gan weithwyr yr RNLI

Mae'r haf ar y ffordd a digonedd o gyfleoedd i fwynhau ar y traeth gobeithio. Ond i fwynhau i'r eithaf, rhaid bod yn ofalus a chadw at reolau pwysig. Felly, roedd hi'n amserol i groesawu criw yr RNLI i'r ysgol yn ddiweddar i gynnal gwasanaeth arbennig.



Pen-blwydd Hapus Y Lolfa

Mae'r ysgol a gwasg Y Lolfa wedi bod yn cydweithio'n dda ers blyneddau lawer erbyn hyn ac roedd hi'n bleser i dderbyn gwahoddiad i ymuno gyda nhw wrth ddathlu'r pen blwydd yn 50 oed. Gobeithio fod pawb ohonoch wedi gweld y plant yn cael eu cyfweld ar y rhaglen Heno (Mai 19eg). Roedden nhw'n wych. Hoffwn ddiolch yn fawr i'r rhieni am eu cefnogaeth ar y noson ac yn arbennig i'r plant am eu cyfraniad.



Pen-blwydd hapus Y Lolfa gydag Yvonne o'r rhaglen Heno

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae hi bob amser yn brofiad pleserus i ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol. Tro Blwyddyn 5 a 6 oedd hi yn ystod mis Mai i glywed hanes Heddwyn gan gwmni Mwn Cymeriad. Mae eleni'n 100 mlynedd ers iddo ennill y gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Penbedw ac roedd y plant wedi rhyfeddu wrth glywed ei fod wedi marw cyn gallu derbyn y gadair. Roedd y cyflwyniad yn fywiog ac yn llawn o wybodaeth diddorol a difyr.

Ymweliad â Gwarchodfa Natur Ynyshir

Mae plant y Cyfnod Sylfaen wedi bod wrth eu boddau'n dysgu am natur yn ystod yr hanner tymor ac roedd plant Blwyddyn 1 a 2 wedi cael amser gwych wrth ymweld ag Ynyshir yn ddiweddar. Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr i Monica a Jenny am drefnu cymaint o weithgareddau diddorol ar ein cyfer. Cafwyd diwrnod gwerth chweil yn creu cuddfannau, yn chwilota yn y pyllau, yn hela trychfilod ac yn twymo losin melys dros dân agored ac erbyn diwedd y dydd roedd pawb wedi ymlâdd. Da iawn chi blant am ymddwyn mor arbennig.

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

1. Cyfarfod Blynnyddol 2017

Yn dilyn yr etholiad lleol yng Ngheulanamaesmawr, croesawodd y Cadeirydd Rhian Evans pob aelod o'r cyngor gynt yn ôl i'w swydd. Wrth ymadael â'r gadair, crybwyllodd Rhian â'r hyn a gyflawnodd y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf, ac fe estynnodd diolch arbennig i Bwyllgor Lliwio Parc Chwarae Bont-goch am ei gwaith. Enwebwyd y Cyngorydd Megan Mai yn gadeirydd i'r Cyngor am y flwyddyn nesaf, â'r Cyngorydd Nest Jenkins yn is-gadeirydd.

2. Creu Mannau Pasio ar Ffyrdd Bont-goch

Yn dilyn ymholiadau'r Cyngor, adroddwyd bod Brian Thomas, Adran Dechnegol, Cyngor Sir Ceredigion, wedi cadarnhau bod y gwaith o greu mannau pasio ym Mont-goch ar restr gwaith y Cyngor Sir yn y tymor hir. Nodwyd fod Brian yn ffyddiog y bydd y gwaith yn cychwyn o fewn y flwyddyn ariannol hon.

3. Swyddfa Bost, Tal-y-bont

Adroddodd y Clerc iddi dderbyn ymateb arall wrth Y Swyddfa Bost, yn dilyn neges y Cyngor yn gofyn a fyddai modd trefnu bod 'post symudol' i'r pentref dros dro hyd y gellir adfer y gwasanaeth. Esboniodd nad oedd newyddion cadarnhaol, gan iddynt nodi y byddent yn hapus i gynnal y gwasanaeth ond ei bod hi'n ddibynnol ar barodrwydd a chapasiti postfeistr swyddfa bost cyfagos i redeg y gwasanaeth. Nodwyd y byddent yn rhoi gwybod i ni os oedd unrhyw ddiweddariad ynglŷn â'r sefyllfa.

4. Parc Chwarae Bont-goch

Ymunodd Siôn Pennant a Siân Davies o Bwyllgor Lliwio Parc Chwarae Bont-goch â'r Cyngor i drafod cynnydd yno. Adroddwyd fod y gwaith draenio wedi'i gwblhau ar y cae, ac fe nododd y Pwyllgor ei bod yn hapus iawn gyda'r gwaith. Esboniodd Siân ei bod wedi derbyn amcan bris ar gyfer glaswellt a bod sawl aelod o gymuned Bont-goch wedi gwirfoddoli i'w osod. Cytunwyd i'r amcan bris yma, ac fe estynnodd y Cyngor ei ddiolch i'r Pwyllgor a'r gwirfoddolwyr am gynnig i ymgymryd â'r gwaith. Nodwyd unwaith i'r glaswellt sefydlogi yn ei lle, bydd modd i'r offer chwarae cael ei osod yn ystod yr haf.

5. Diffyg Signal Ffôn Symudol

Adroddodd y Cyngorydd Emyr Davies nad oedd signal o gwbl mewn mannau o Bont-goch a Tal-y-bont. Nododd fod argyfwng diweddar yn Nhal-y-bont wedi tanlinellu'r angen am signal gwell yn yr ardal. Cytunwyd i ysgrifennu at Ofcom ynglŷn â'r mater.

6. Goleuadau Stryd

Nododd y Cyngorydd Nest Jenkins fod y lon rhwng tafarn y Blac a Brynhyfryd yn dywyll dros ben, gan ofyn a byddai modd gofyn i'r Cyngor Sir osod golau stryd yno, yn arbennig yn agos i'r cilfan wrth yr ystâd. Cytunwyd i ysgrifennu at adran Gwasanaethau Technegol Cyngor Sir Ceredigion.

At hyn, adroddwyd nad oedd diweddariad eto ynglŷn â'r posibilrwydd o osod goleuadau stryd wrth fynedfa Maes y Deri (ochr y Cae Bach), ond bod y Cyngor yn parhau i ddilyn y mater.

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ

helen.iwan@btinternet.com

01970 832760



**Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

*Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Busnesa yn y Lolfa Dathlu Hanner Canrif



Mae gweld unrhyw fusnes yn goroesi dros hanner canrif yn sicr yn brawf o lwyddiant ac yn achos dathlu. Eleni dyna hanes Y Lolfa, y wasg a sefydlwyd gan Robat Gruffudd yn 1967 sydd erbyn heddiw yn un o weisg mwyaf Cymru ac yn gyflogwr sylweddol yn Nhal-y-bont a gogledd Ceredigion. Cafwyd parti hwyliog yng ngwesty'r Marine – awduron, golygyddion, dylunwyr a darllenwyr: pawb yn llongyfarch Robat a'r teulu ar wireddu'r freuddwyd. Yng nghanol y bwrlwm a'r sbri roedd gweithwyr y Lolfa ac fe fu Papur Pawb yn siarad gyda nifer ohonynt i gael eu hadwaith i'r garreg filltir bwysig.

Chwith: Geraint Lovgreen a'r Enw Da yn chwarae yn y Marine ym mharti 50 Y Lolfa

Paul Williams – Rheolwr Cynhyrchu

Dechreuodd Paul ei yrfa ym myd argraffu gyda Cambrian Printers yn Aberystwyth. Treuliodd gyfnod yn astudio'r maes mewn Coleg yng Nghaerdydd gan gynnwys y grefft o osod tudalen mewn plwm, llythyren wrth llythyren. Ei brif gyfrifoldeb yw trefnu rhaglen gynhyrchu wastad a chytbwys yn arbennig o gofio bod dedlein i bob darn o waith. Mae hyn yn wir am ddau brif faes y wasg – argraffu a chyhoeddi.

Mae cwmmpawd argraffu yn eang – pob peth o bosteri a gwrslyfrau i dafenni etholiad. Tasg Paul yw ennill ac yn bwysicach fyth cadw busnes mewn amgylchedd hynod gystadleuol: mae'n brofiad cyson i weld cwmnïau eraill yn ceisio bachu cytundeb drwy wneud y gwaith am lai. Mae gan Y Lolfa gwsmeriaid ledled Cymru ac mor bell a Llundain gyda cymeradwyaeth lafar yn allweddol. Golyga technoleg nad yw Paul byth yn cyfarfod rhai cwsmeriaid ond er hyn rhaid gofalu meithrin y cyswllt personol.

Rhan ganolog o'r ochr argraffu yw cynhyrchu papurau bro. Wrth gwrs Papur Pawb oedd y cyntaf ac erbyn hyn mae'r wasg yn argraffu deuddeg papur bro – Ceredigion a Phowys yn bennaf ond hefyd sawl papur yng Ngwynedd. O ran cyhoeddi rhaid sicrhau fod y llyfrau Cymraeg a Saesneg a ariannwyd gan y Cyngor Llyfrau yn ymddangos ar amser gyda'r Nadolig a'r 'Steddod yn gyfnodau prysur. Ar yr un gwynt mae Paul yn pwysleisio fod rhaid cynnal y fusnes deuddeg mis y flwyddyn – cyfnodau prysur a chyfnodau tawel.

Erbyn hyn mae trosiant Y Lolfa dros filiwn ac mae'r cwmni'n cyflogi ugain o staff ac derfyn pob mis rhaid talu'r bil cyflog – boed adeg brysur neu dawe.



Sonia Hughes – Gweinyddwr

Daw Sonia o Llanbrynmair ond mae bellach yn byw yn Nhal-y-bont gyferbyn â'r wasg. Graddiodd mewn Bioleg yn Aberystwyth a dod i weithio i'r Lolfa yn 2002. Mae ei swydd yn cwmpasu holl agweddau ariannol y cwmni ac unwaith eto, y pwysicaf efallai yw gweinyddu y gyfrifoldeb am gyflogau. Maes cymhleth yn galw am wybodaeth manwl o reolau treth incwm, yswiriant gwladol a phensiynau – meysydd sy'n newid o un flwyddyn i'r llall. Taliadau hefyd i'r holl awduron, ffigwr erbyn hyn o rhwng chwech a saith cant. Un o'r pethau sy'n peri cur pen i Sonia yw awdur sy wedi marw heb drosglwyddo manylion am bwy bellach ddylai dderbyn y breindol. Talu biliau – am rywbeth mor sylfaenol er enghraifft â phapur gan gofio na all Y Lolfa mwy nag unrhyw wasg arall fodoli heb bapur!

O holi am broblemau mae Sonia yn cyfeirio at fethdaliad cwmnïau eraill gan ddiolch i'r drefn nad yw hynny'n digwydd yn aml. Ar ei desg adeg ein sgwrs roedd bwn del o ffurflenni MOT a chofnodion holl gerbydau'r cwmni – pa gerbyd oedd nesaf i'r prawf, pryd oedd treth yn ddyladwy, pryd oedd angen serfis ag ati, ag ati. O ystyried hyn oll, holwch eich hun faint o weithiau chi wedi anghofio adnewyddu MOT?!



Gwasanaeth Scania ARTHUR MORGAN



Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292

Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Gwasanaeth Cynnal a Chadw Gerddi MYNACH Garden Maintenance

Tori Porfa, Sietynau, Tirlunio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

Ffoniwch Meirion:
07792457816 / 01974 261758

e-bost:
mynachhandyman@yahoo.com

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com


Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

Geraint Jenkins – Argraffydd



Mae Geraint wedi teithio o'i gartref yn Llanon i Dal-y-bont am dros ddeugain mlynedd ac felly o blith y staff fe sydd â'r cyfnod hiraf o wasanaeth. Dechreuodd weithio i'r Lolfa yn yr Hen Emporiwm ar waelod y pentref, dod i ddysgu'r grefft o fod yn argraffydd ac mae'n dal i ddysgu. Yng ngeiriau Geraint, fe sy'n cadw y peiriannau i droi. Cynhyrchir yr argraffwaith ar ddarnau mawr o bapur sy'n cynnwys un deg chwech tudalen ac o dipyn i beth mae'r pentwr o bapur yn tyfu hyd nes bod gyda chi lyfr cyfan neu bapur bro cyflawn.

Mae gan Y Lolfa wasg bump lliw erbyn hyn ar gyfer argraffu mewn lliw llawn, ac mae Geraint yn rhyfeddu at rym peiriannau heddiw o'u cymharu â'r wasg gyntefig gyntaf yn yr Emporiwm, oedd yn argraffu un lliw ar y tro. Dyn pwylllog tawel yw Geraint ond dyn sy'n hoffi ceir cyflym megis ei Ford Focus glas diweddaraf – rhif cofrestru J11NCS!



Nôl yn 1968, pan oedd gan Y Lolfa staff o ddau yn unig – Elwyn Ioan a Robat

Arwel Griffiths – Rhwymo a Gorffen



Cyn dod i'r Lolfa bu Arwel yn gweithio fel plastrwr ac yn amlogfa Aberystwyth – felly gwell peidio a sôn am brofiad perthnasol! Mae'n byw ar stad Maesyderi ac fel sawl un arall yn falch o gael cyfle i weithio'n agos at ei gartref. Fe sy'n gyfrifol am y prosesau olaf – torri'r darnau mawr a argraffwyd i dudalennau unigol, styffylu a rhwymo. Agwedd a all wneud gwahaniaeth sylweddol gan arafu'r broses yw ansawdd y papur – papur tenau yn fwy anodd ei drin a phapur sgleiniog yn creu static wrth ei drafod gyda Arwel yn llythrennol yn cael sioc wrth lywio'r llyfr i ben ei daith! Y cyfan sy ar ôl wedyn yw pacio a danfon y parseli i warws y Cyngor Llyfrau – clasur arall ar ei ffordd i'r cwsmeriaid.

Sefydlwyd Y Lolfa yng nghanol y chwedegau, mewn cyfnod cyffrous pan oedd cenhedlaeth o Gymry ifainc yn credu mewn chwyldro ac mewn ymestyn yr iaith i bob ffrwd o fywyd. Pethau go ddiflas oedd llyfrau Cymraeg ar y pryd ac roedd yn rhan o weledigaeth Y Lolfa i greu math newydd o gyhoeddi bywiog a heriol. Dros hanner canrif ehangodd y cwmni mewn maint ac mewn cynnyrch gan ymestyn i gyhoeddi llyfrau Saesneg ond blaenoriaeth y cwmni, fel heddiw, yw sbarduno creadigrwydd Cymreig a Chymraeg.

Profiad braf oedd sgwrsio gyda phump unigolyn sy mewn gwahanol ffyrdd yn cyfrannu at y creadigrwydd â'r pump yn ddiwahân yn cyfeirio at y mwynhad o weithio i gwmni lleol a bod yn rhan o deulu lle mae pawb yn nabod ei gilydd.

GIE

Y LLEW GWYN TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Garej Davmor



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278

www.davmorgarage.co.uk

Teyrnged

Colli William Jenkins

Efo tristwch a syfrdandod y derbyniwyd y newydd am farwolaeth William Jenkins, Y Gelli, Taliesin ar yr ail o fis Ebrill yn saith deg saith mlwydd oed. Fel “Wil y Gelli” ei hadweinid gan bawb o'i ffrindiau a'i gyfoedion. Os bu erioed ddyn ei filltir sgwar, Wil oedd hwnnw.

Fe'i ganwyd yn y Gelli ym mis Chwefror 1940 yn fab i Eirlys a John Jenkins, yn ail o dri o blant efo dwy chwaer Ann ac Alma. Fe'i addysgwyd yn lleol yn ysgol gynradd Taliesin ac yna Ysgol Uwchradd Dinas, Aberystwyth. Gadawodd yr ysgol yn bymtheg neu unarbymtheg oed fel y rhan fwyaf o feibion ffermydd yn y cyfnod hwnnw, ac adref y daeth i ffermio efo'i dad. Parhau felly am gyfnod o rhyw ddeg neu ddeuddeg mlynedd, yna ei fam a'i dad yn ymddeol a symud i Dan y Coed, Eglwysfach.

Priododd wedyn â Ruth, merch hyfryd o Garno yn 1968. Cymryd at yr awenau a'r cyfrifoldeb o amaethu a magu dau o feibion Alwyn ac Aled. Alwyn yn ffermio adref ac yn byw ym Mwlcheinion, ac Aled yn fferm Moc yn Ffostrasol.

Ni adawodd William Y Gelli erioed. Cafodd ei fagu yno, ac fe arhosodd yno hyd ddiwedd ei oes. Roedd yn amaethwr wrth reddf a'i ddiddordebau y tu allan i fydd amaeth yn ychydig.

Yn ei ieuenctid roedd yn beldroediwr o fri yn chwarae i dîm Taliesin, ac yn ôl rhai o'i gyd chwaraewyr ar y pryd yn gefnwr solet anodd ei drechu. Ond heb os ei brif ddiddordeb oedd hela. Bu'n gefnogol i glwb hela Tal-y-bont erioed; pur anaml y gwelwyd helpa nad oedd William ynddi. Roedd hefyd yn saethwr heb ei ail.

Ni fu bywyd yn garedig iddo ef a Ruth bob amser. Ganwyd eu hŵyr bach cyntaf efo Cerebral Palsy, ac yna flynyddoedd

yn ddiweddarach, colli Helen eu merch yng nghyfraith trwy ddamwain echrydus. Yna ddeng mlynedd yn ôl cafodd William strôc gan golli ei leferydd, ond trwy'r cyfan bu'n galonogol. Gwnai ymdrech i gael sgwrs ac roedd gwên ar ei wyneb bob amser. Yn 2015 cafodd “Triple Bypass” ac ar ôl hynny, dirywio a gwaelu fu hanes ei iechyd hyd y diwedd fis yn ôl.

Cydymdeilwn â Ruth, Alwyn ac Aled a'i holl deulu gan obeithio efo ymadawiad amser y bydd i'r boen leddfu ac ysgafnhau.



TALIESIN FC 1960/61

Rhes gefn

[1] Jackie Middleton — [2] Richie Jenkins — [3] Ken Jones
[4] Bob Rowlands — [5] Eric Roberts — [6] Gordon Edwards
[7] Ron Roberts — [8] Bill Kingshott

Rhes flaen

William Jenkins — David Owen — Jim Roberts
Gareth Williams — Gwyn Evans

Teyrnged

Y Parchedig Hugh Iorwerth Jones

Trist yw cofnodi fod y Parchedig Hugh Iorwerth Jones o Lanelwy wedi marw ar y 7fed o Fai 2017 yn 96 mlwydd oed. Bu'n weinidog ar eglwys Bethel am wyth mlynedd; cafodd ei sefydlu Medi 12fed 1958. Roedd wedi cadw cysylltiad a Bethel hyd y diwedd, a diddordeb mawr ganddo yn yr hen aelodau, ac yr oedd yn cysylltu bob blwyddyn i gael yr hanes. Bu'n gyfnod tu hwnt o lewyrchus ym Methel. Buodd e a'i briod, y diweddar Mrs Olwen Jones, yn weision da i Iesu Grist tra buont yma, ac yn cymryd eu gwaith o ddifrif, a'u gofal drosom yn arbennig, yn enwedig gyda'r plant a'r bobl ifanc.

Mae fy nyled yn fawr iddo, fe briododd Ann a fi, ac aml i aelod arall ym Methel. Bu Ieuan a minnau, ar ran Eglwys Bethel, yn y

gwasanaeth o ddiolch amdano, yng Nghapel lân Swan Dinbych, Dydd Gwener Mai 19eg, dan ofal y Parchedig Graham Floyd.

Buont yn byw ym Maesmawr, a magu dau fab yno, Eifion a Myrddin, a bu'r ddau yn nhu hwnt o ffyddlon yn dysgu adnod bob wythnos, ac yn eu dweud yn y gyfeillach bob nos Sul tra buont yma, yr un fath â gweddill plant Bethel. Roedd Mr a Mrs Jones yn rhoi pwys mawr ar hyn, ac yn annog pob plentyn i gario ymlaen. Fel y dywedodd y Parchedig Fred Jones wrthym ni yn y tridegau, “Y mae dysgu adnod pan yn ifanc ‘run fath a petaech yn llanw sach, y peth cyntaf sy'n mynd mewn i'r sach hwnnw yw'r peth dwetha sy'n dod allan.” Cydymdeimlwn yn fawr fel Eglwys ag Eifion a Myrddin a'i teuluoedd yn eu profedigaeth.

Gwilym Jenkins



Mr Jones yn ymarfer parti o ferched ifanc y pentref ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. O'r chwith: y Parchedig Hugh Iorwerth Jones, Mai Evans, Taliesin, Catherine Owens, Llys Meirion, Beatrice James, Erwbarfe, Margaret Jenkins, Tynygraig, Elisabeth Royle, Felinfach, Gwenda a Non Jenkins, Tynygraig, Ann Davies, Central Stores, Nesta Evans, Taliesin, Elwedd Jenkins, Cerrigaranau, a Megan Evans, Rhyd Fach Ganol.

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi

Bocsau a bubblewrap ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffon: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

Wales REMOVALS
www.midwalesremovals.co.uk

INVESTORS | BUDDSODIWRYR
IN PEOPLE | MEWN POBL

Ar Gopa Cymru



Dathlu wedi cyrraedd copa'r Wyddfa

Pa ffordd well i dreulio amser hamdden nag allan ar ddwy olwyn neu, yn yr achos yma, dwy droed gyda ffrindiau'n mwynhau golygfeydd godidog Cymru a chadw'n heini (a magu syched!) ar yr un pryd?

Mae 'na griw â chysylltiadau agos iawn ag ardal Tal-y-bont yn gwneud hyn yn reolaidd gyda rhan fwyaf o'r anturiaethau yn cychwyn a gorffen yn y pentre'. Ond eleni, gan ehngu eu gorwelion 'chydig bach mae nhw wedi bwrw ati i gwblhau'r her o ddringo'r 8 llwybr cydnabyddiedig i gopa'r Wyddfa o fewn y flwyddyn.

Mae'r grŵp hanner ffordd drwy ei her gyda'i bod eisoes wedi cwblhau trywydd Llanberis, Mwynwyr, PYG a Cwellyn a felly gyda Y Lliwedd, Grib Goch, Watkin a Rhyd Ddu i fynd.

O ystyried fod yr Wyddfa yn 1,085m ac Everest yn 8,848m erbyn ddiwedd yr her fydd y rhai fydd wedi cyflawni pob un o'r llwybrau wedi dringo uchder fydd bron yn cyfateb â mynydd ucha'r byd heb adael Cymru fach!

Y rhai sydd wedi bod ar y tîm hyd yn hyn a sydd wedi gwneud o leia un o'r llwybrau fyny'r Wyddfa yw John Draper o Llandre,



Yr olygfa o'r copa

Elen a Mark Ebenezer Barry Morgan, Eifion a Gerwyn Jones a Kevin Roberts o Dal-y-bont, John Walsh o Commis Coch a Nigel Nicholas o Aberystwyth.

Mae'r grŵp wedi gweld y mynydd a'r golygfeydd ar ei gorau ond hefyd maent wedi gweld a phrofi pa mor sydyn mae'r tywydd yn medru newid a bod angen bod yn ofalus a pharchus o'r mynydd a'r elfennau. Yr uchafwynt hyd yn hyn oedd gweld y dydd yn gwawrio ar y copa a mwynhau 'Flaming Sambuca' i ddathlu...ond o fewn hanner awr roedd y nefoedd wedi agor gyda glaw mawr, mellt a tharannau gyda'r gang yn falch iawn o gyrraedd nôl yn ddiogel yn Rhyd Ddu!

Mae'r tîm yn falch iawn o groesawu aelodau newydd boed hynny er mwyn mynd ar y beic neu am wâc. Mae'r teimlad o gyflawni rhywbeth fel rhan o dîm yn wefr yn ei hunan ac mae cwrdd a dod i 'nabod bobl o gefndiroedd gwahanol yn elfen bwysig o ddiwylliant y tîm yma – peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni pe baech am ymuno yn y hwyl boed hynny yn achlysurol neu'n reolaidd.


Tra wrthi'n cerdded mae 'na ddigon o drafod eisoes wedi bod am beth fydd yr antur ar gyfer 2018 ond byddwn yn falch iawn o glywed am syniadau wrth eraill!

Gerwyn Jones



argraffu da
am bris da

Y Lolfa holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com



Y nawfed ffordd i ddringo'r Wyddfa?

Cletwr

Newyddion Digwyddiadau Cletwr

Dathlu Pedwerydd Pen-blwydd

Mae Siop a Hyb Cymunedol Cletwr wedi parhau i dyfu wrth ddarparu gwasanaethau ac fel lle arbennig i stopio am banded a thamed i'r rheini sy'n teithio drwy Gymru. Ym mis Mai eleni, dathlodd Cletwr ei 4ydd penblwydd ac mae cyffro mawr ynglŷn â symud i'r adeilad newydd ar ddiwedd mis Medi.

Mae Cletwr yn parhau i gynnig ystod eang o weithgareddau gan gynnwys sgysiau, teithiau cerdded, ffotograffiaeth, ffilmiau, amser stori i blant, cyrsiau, gweithgareddau i ddysgwyr Cymraeg, cynnal a chadw beiciau a chrefftau i bawb. Rydym yn gwneud ymdrech i rannu gwybodaeth am brosiectau diddorol yn yr ardal; yn ddiweddar buom yn cynnal noson ysbrydoledig iawn gyda sgysiau gan Naomi a Josie i glywed am Brosiect Draenogod Aberystwyth a'r Prosiect i Ryddhau Belaod yn ardal Pontarfynach. Mae'r cynllun hwn wedi arwain at ddyfodiad ein bele'r coed ein hunain yn y fro i'w enwi gan y gymuned. Galwch heibio gyda'ch awgrymiadau!

Rydym hefyd yn cynnig safle i'r llyfrgell deithiol sy'n ymweld ar yr ail ddydd Mawrth yn y mis.

Mae ein digwyddiadau'n rhoi cyfle i bobl i ddysgu a chymdeithasu â phobl leol o bob oed. Ewch at ein tudalen Facebook a gwefan am fanylion ar ddigwyddiadau sydd ar ddod neu gallwch bicio heibio i godi un o'n taflenni cyfredol a cappuccino! Ymhlith digwyddiadau mis Mehefin mae taith i weld y troellwr mawr ar Gors Fochno, adnabod llysiau llesol i'n hiechyd yn ogystal â straeon hud a lledrith gan y storiwraig Christine Watkins a'n sesiynau Clonc a Gweu bob dydd Mawrth. A pheidiwch ag anghofio ein sesiwn Dal Ati sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr i ymarfer eu Cymraeg yng nghwmni siaradwyr rhugl ar 3ydd Sadwrn y mis.

Mae croeso mawr i unrhyw syniadau ar gyfer digwyddiadau yr hoffech eu gweld yma – e-bostiwch ni ar: events@cletwr.com neu ffonio 01970 832113.

Merched y Wawr Tal-y-bont Ioga



Roedd yn dda cael croesawu Mair Jones o Aberystwyth atom fis Mai. Mae Mair yn diwtor Ioga yn ardal Aberystwyth dan ymbarél Ioga i Bawb, (yogaibawb.org.uk) sef grŵp cymunedol sy'n gweithio i wneud yoga'n hygyrch ac ar gael am bris fforddiadwy i bobl gogledd Ceredigion a gogledd Powys. Mae'r criw tiwtoriaid yn cynnal dosbarthiadau cyffredinol yn y gymuned a sawl un ohonynt yn athrawon sy'n arbenigo mewn ioga ar gyfer plant, merched beichiog, pobl fregus ag anhwylderau iechyd ag yn cynnal dosbarthiadau i weithluoedd o fewn eu man gwaith.

Prif ddiddordeb Mair yw denu pobl hyn at ioga gan esbonio sut wellhad a ddaw i'r corff a'r meddwl wrth ymarfer ioga syml yn rheolaidd. Dangosodd a siaradodd am ddau lyfr Cymraeg am Ioga oedd wedi eu cyhoeddi flynyddoedd yn ôl. Da oedd gweld 'Ymlaciwch', Y Lolfa un o gyfres Byw Heddiw o 1985. Mae Margaret Howells yr awdur yn ei wythdegau nawr ac yn byw yn Llwynhendy. Y Fendigaid Gân oedd y llall, Bhagavadgītā, llyfr oedd yn cael ei gyfrif yn un o glasuron India a'i gyfeithu am y tro cyntaf i'r Gymraeg o'r Sanskrit gan y diweddar Athro Cyril Williams, Coleg Dewi Sant Llanbedr Pont Steffan.

Roedd y cadeiriau wedi eu gosod mewn cylch a gorfod i ddim un ohonom godi o'n cadeiriau am y sesiwn ymarfer. Serch hynny buom yn ymarfer symudiadau breichiau, ysgwyddau, coesau, traed a'r pen ar ein heistedd tra bu Mair yn arwain gyda chyfarwyddiadau clir ac mewn llais cynnes a thyner. Fe aeth a ni trwy symudiadau oedd wedi eu hanelu at ymarfer rhai o gyhyrau'r corff, tawelu'r meddwl a rheoli'n anadlu. Noson i'w thrysori ag i ni ail ymweld â'r cynghorion yn ein hamser sbâr.

Medi James

Sefydliad y Merched, Taliesin Llwyddiant yn Rali'r Sir

Eleni eto daeth llwyddiant i'r merched wrth iddynt gipio nifer o wobrwyon yn Rali Wanwyn y Sir yn Ciliau Aeron ar y 20fed o Fai. Gyda'r nifer uchaf o bwyntiau yn y Rali, derbyniodd Liz Roberts y cwpan ar ran yr aelodau. Yna cafodd Beti Wyn wobwr am yr eitem orau yn yr adran gosodiade blodau ac hefyd yn yr adran goginio. Enillodd Chris Gilbert Gwpan Jeff Thomas am gynllunio gardd tylwyth teg.

Dyma'r holl ganlyniadau:

Cwpan Aberhonddu 'Gofod':

2^{il} Chris, 3^{ydd} Beti Wyn

Arddangosfa Cydweithredol ar y thema 'Gofod':

2^{il} Taliesin

Llun Macro:

2^{il} Beti Wyn, 3^{ydd} Liz Roberts

Darlun Ffelt:

2^{il} Beti Wyn

Swiss Roll:

1^{af} Liz Roberts

Pleth Selsig:

1^{af} Beti Wyn

Saws i Weini hefo pysgod:

2^{il} Beti Wyn

Gosodiad Blode Carnations:

2^{il} Beti Wyn

Gosodiad Bach 'Petite':

2^{il} Beti Wyn, 3^{ydd} Linda Hicks

Harddwch Gwyrdd:

1^{af} Beti Wyn

Gosodiad Mewn Llestr:

1^{af} Linda Hicks

Gardd Tylwyth Teg:

1^{af} Chris Gilbert



Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT



Glanyrafon

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan **ALIGNMYCAR.CO.UK**
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Rhodfa'r Parc

Cylch Meithrin Tal-y-bont

Byr oedd yr hanner tymor rhwng y Pasg a'r Sulgwyn eleni, ond mi roedd yr un mor brysur ag erioed yn y Cylch Meithrin, gyda llong 'stafell o blant bach bywiog, gan gynnwys sawl wyneb newydd.

Gymrodd y Cylch rhan ym **Mharti Pyjamas Mwya'r Byd** ar 9 Mai. Ymgais oedd hwn i dorri record y byd am y nifer fwyaf o bobl mewn parti pyjamas, fel rhan o ddathliadau Mudiad Meithrin yn 45 oed. Ac roedd yr ymgais yn llwyddiannus - chwalwyd yr hen record o 2,004 yn ddeilchion wrth i 8,600 gymryd rhan! Ac roedd yn amlwg i bawb yn y Cylch fwynhau'r parti'n fawr iawn.

Dim ond deuddydd wedyn, newidiwyd y pyjamas am welis wrth i'r Cylch gymryd rhan yn **Nhaith Gerdded Pyllau Mwdlyd Peppa Pinc**, i godi arian at Gronfa Achub y Plant. Aeth pawb am dro i Allt y Crib, a mawr oedd canmol y staff i'r plantos am ddyfalbarhau a cherdded bob cam er gwaethaf coesau bach blinedig.

Gan mai hwn yw rhifyn ola'r flwyddyn cyn yr haf, dyma achub ar y cyfle i ddiolch i Glwb Nos Wener, Ysgol Gymunedol Llangynfelyn a Chlocswyr Ceulan am eu rhoddion hael yn ystod y flwyddyn. Mae pob ceiniog yn helpu tuag at wella'r adeilad, yr adnoddau a'r profiadau. Diolch yn fawr iawn hefyd i'r staff talentog ac ymroddedig am y profiadau gwyb maen nhw'n eu rhoi i'r plant.

A rhwch nodyn yn eich dyddiadur, sef Cyfarfod Blynnyddol y Cylch ar nos Lun 10 Gorffennaf, am 7.30 yn y Tŷ Sbri. Mae croeso cynnes iawn i bawb.
RW

Y Gair Olaf



Y prif beth sy'n dod i'r meddwl am fis Mehefin yw ein tir ffrwythlon yr adeg yma o'r flwyddyn pan mae'r rhawiau'n brysur yn yr ardd lysiau, y tatws yn dechrau blodeuo ac Allt y Crib yn llawn sŵn natur. Rydym yn lwcus iawn o fyw mewn ardal mor wyrdd a naturiol, lle mae modd anadlu awyr iach yr haf.

Un o fy mhrif bryderon ydy cynhesu byd eang a'r effaith o fwg ceir ac ynni anghynnaladwy ar ein tir ac iechyd. Gyda'r cyhoeddiad yn dod yn ddiweddar fod Trump ac America am droi eu cefnau ar Gytundeb Paris am gynhesu byd eang, mae'n bwysicach byth ein bod yn dangos esiampl i'r gwledydd mawr fod modd byw drwy ddefnyddio egni glân a gwarchod ein hamgylchedd.

Mae llawer o bobol yn anghytuno gyda'r farn mai tyrbinau gwynt, ynni solar a thanwydd bio a hyd yn oed ailgylchu ydy'r ffordd ymlaen, ond eto mewn lle bach fel Tal-y-bont mae pawb yn neud ei ran drwy godi paneli solar, tyrbinau gwynt ar eu ffermydd a newid i ynni glân tanwydd bio.

Beth bynnag rydych yn ei feddwl am egni glân, dwi'n meddwl y bydd pawb yn cytuno drwy neud ein rhan dros yr amgylchedd byddwn yn sicrhau y bydd sŵn natur Allt y Crib ac awyr iach Tal-y-bont yn cael ei fwynhau gan genedlaethau i ddod.

Eurgain Phylip

Gwobrwyo Ffotograff

Mae ffotograff gan Olygydd Cyffredinol Papur Pawb, Gwyn Jenkins, wedi'i wobrwyo mewn cystadleuaeth ffotograffiaeth a drefnwyd gan UEFA a'r Gymdeithas Bêl-droed i ddathlu cynnal rownd derfynol Cwpan Pencampwyr Ewrop yng Nghaerdydd. Holwyd Gwyn am y ffotograff a'r digwyddiad a fynychodd yng Nghaerdydd a dyma oedd ei ymateb:

"Yn y gwanwyn dechreuais deimlo'r awydd i geisio am docyn i weld ffeinal Cwpan Pencampwyr Ewrop a oedd i'w gynnal yng Nghaerdydd ar 3 Mehefin. Roedd cael tocyn am y fath achlysur yn anodd ond ddiwedd Ebrill fe benderfynais drïo ennill dau docyn drwy anfon ffotograff i gystadleuaeth o'r enw 'Dyma Bêl-droed Cymru' a drefnwyd gan UEFA a'r Gymdeithas Bêl-droed. Dewisais lun a dynnais yn ystod Gŵyl Bêl-droed Tal-y-bont a'i anfon at y trefnwyr.



Y ffotograff a wobrwwyd

Nid oeddwn yn disgwyl ennill ac anghofiais am y cyfan tan i mi dderbyn e-bost yn fy hysbysu fy mod ar y rhestr fer o dri ar gyfer un categori o'r gystadleuaeth. Codwyd fy ngobeithion ond nid yn ormodol gan y gwyddwn y byddai lluniau gwyb iawn ymhlith y 700 a oedd wedi cystadlu.

Gwahoddwyd fi i seremoni cyflwyno'r gwobrau yng Nghanolfan y Mileniwm ar 31 Mai. Yno roedd arddangosfa o grysau pêl-droed a ffotograffau hanesyddol o chwaraewyr a gemau o'r bencampwriaeth dros y blynnyddoedd. Roedd hefyd arddangosfa o'r ffotograffau a oedd ar y rhestr fer.

Yn cyflwyno'r gwobrau oedd y chwaraewyr rhyngwladol Ian Rush a Robert Earnshaw a rheolwraig tîm pêl-droed merched Cymru, Jayne Ludlow. Yn anffodus nid oeddwn yn fuddugol ond cefais wobwr o gamera Sony. Llwyddais hefyd i drefnu llun o Rush a minnau gyda'r ffotograff ac un ohonof gydag Earnshaw. Byddai wedi bod yn braf ennill y tocynnau ar gyfer y ffeinal ond rhaid oedd bodloni ar wyllo'r gêm ar y teledu. Serch hynny, fe gefais brofiadau bythgofiadwy yn y seremoni yng Nghanolfan y Mileniwm."



Ian Rush a Gwyn Jenkins gyda'r ffotograff yn yr arddangosfa

PENCAMPWYR



Y tîm buddugol

Roedd y tri sy'n gyfrifol am redeg ail dîm pêl-droed Tal-y-bont, Des Roberts, Evan Rowlands ac Ows Jones, ar bigau drain wedi'r fuddugoliaeth yn erbyn Llanilar ddechrau Mai gan fod y ddau dîm arall a oedd yn cystadlu am bencampwriaeth Ail Adran y Cynghrair yn chwarae ei gilydd ddeugain milltir i ffwrdd ar yr un noson. Petai yntau Eilyddion Dolgellau neu drydydd tîm Prifysgol Aberystwyth yn ennill, yna fe fyddai gobeithion Tal-y-bont o gipio'r bencampwriaeth yn deilchion. Y gobaith oedd y byddai'r sgôr yn gyfartal ar ddiwedd y gêm yn Nolgellau. Gwaetha'r modd, er i Evan ffonio clwb Dolgellau droeon, ni chafwyd ateb. Dim ond yn

hwyrach yn y nos clywyd mai 2-2 oedd y sgôr ac felly Tal-y-bont fyddai'r pencampwyr. Mawr bu'r dathlu y noson honno ac ar nos Iau 18 Mai pan gyflwynwyd y darian i'r tîm.

Nid yw'r ail adran mor gystadleuol â'r Adran Gyntaf ac mae'r bechgyn yn cael tipyn o hwyl wrth chwarae. Mewn gêm yn agos at ddiwedd y tymor trefnwyd bws i gludo'r tîm i Ddolgellau, gyda thad Ows, yr anfarwol 'Brian yr Organ', yn gyrru. Ef hefyd oedd yn diddanu pawb yn y dafarn yn Ninas Mawddwy y noson honno.

Llongyfarchiadau i'r tîm ac i'r 'tri mysgedwr' a fu'n trefnu'r cyfan.

Llongyfarchiadau



Chwith: Llongyfarchiadau mawr i Cai Thomas ar ennill y Ras am Fywyd (Race for Life) ar ddydd Sul, 14ydd i Fai. Rhedodd Cai 10k mewn 44 munud, sydd yn dipyn o dipyn o gamp.

Isod: Tîm pêl-droed C Ff I Tal-y-bont a enillodd y gystadleuaeth yng Ngŵyl Chwaraeon Ffermwyr Ifanc Ceredigion.



Evan Rowlands, Ows Jones a Des Roberts gyda'r darian



Llongyfarchiadau i Dylan Wyn, Dôl Pistyll a Tomos Jenkins, Ynysgreigiog, Ffwrnais ar dymor llwyddiannus yn chwarae rygbi i'r sir ac ar chwarae twrnament Rygbi 7 yn Llanymddyfri yn ddiweddar. Yn dilyn tymor o gêmiau da ac hyfforddi caled mae'r ddau wedi eu dewis ar gyfer treialon gyda'r Sgarlets. Pob hwyl ich eich dau.